

Sul Un Byd

Darlleniad: Rhufeiniaid 15: 7-13

‘Bydded i’r cenedloedd lawenhau a gorfoleddu, oherwydd yr wyt ti’n barnu pobloedd yn gywir ac yn arwain cenedloedd ar y ddaear. Bydded i’r bobloedd dy foli, O Dduw, bydded i’r holl bobloedd dy foli di.’

O! Dduw, creawdwr y byd a phob dim sydd ynddo, mawrygwn di am waith dy ddwylo o fewn dy greadigaeth. Tydi a luniaist drefn o anhrefn ac a ffurfiaist fydd o grai ddefnyddiau’r cread. Gosodaist ffurfafen yn do, a’r tir a’r dyfroedd yn gyfryngau i gynnal bywyd. Rhoist inni’r tymhorau yn eu trefn a chynhysgaeth pob tymor yn dwyn ei faeth a’i gynhaliaeth.

Gwasgeraist yr hil i bedwar ban yn gwllwm o genhedloedd, ac o’u gwaddol fe gyfyd, o oes i oes, flagur bywyd.

‘Bydded i’r boblogaeth dy foli di, O! Dduw.
Bydded i’r holl bobloedd dy foli di.’

Diolchwn i ti am y Sul arbennig hwn a’n gwna ni’n ymwybodol ein bod ni oll yn ddeiliaid dy greadigaeth ac yn ddisteiniaid yr hyn yr wyt ti wedi ei ymddiried inni.

Helpa ni i gofio taw dy fydd di yw hwn a’n bod yn atebol i ti am ein gofal ohono. Cynorthwya ni i’w warchod a’i amddiffyn yn hytrach na’i lygru a’i ecsbloitio, er mwyn inni fyw mewn harmoni â’th fydd.

Rho dy gymorth inni hefyd geisio byw mewn cytgord â’n gilydd fel dynoliaeth trwy ymdrechu i ymgadw rhag trais a gwrthdaro. Dysg ni i gymodi a charu fel y bydd i ryfeloedd beidio ac fel y bydd pobl o bob gwlad a hil ac iaith yn gweithio’n egniol i geisio

GWEDDIAU CYHOEDDUS

sicrhau goddefgarwch a heddwch rhyngddynt a'i gilydd.

Cynorthwya ni i gydnabod ein cyfyngiadau a pharchu cryfderau ein gilydd ac i sylweddoli ein bod ni'n gynnyrch dy ddwylo a'th feddwl di. Ynot ti yr ydym ni'n un - yn un byd, yn un greadigaeth, yn un bobl. Amen.

Peter Thomas